# AR OSOD

## 1 Rhodfa Cowell, Llanelli SA15 1YL

### Cynigion o oddeutu £10,000 y flwyddyn




- Uned defnydd A1 ar y llawr gwaelod
- Arwynebedd gros o 143$m^2$ (1539 troedfedd sgwâr)
- Lleoliad ardderchog yng Nghanol Tref Llanelli

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## Disgrifiad

Uned adwerthu ddeniadol ac eang sydd â thu blaen ar ddwy ochr ar y llawr gwaelod, mewn man amlwg, wrth fynedfa Marchnad Dan Do Llanelli a Chanolfan Siopa Sant Elli.

Tu mewn mae ardal fanwerthu helaeth gyda thu blaen sylweddol o tua 21m a ffenestri arddangos mawr. Yn y cefn mae dwy swyddfa, a choridor cefn a rennir yn arwain at ystafell staff/cegin a thoiledau ac ati.

Ardal Fanwerthu



Swyddfa



## Adfywio Canol y Dref

Yn sgil cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi mynd ati i gaffael eiddo gwag ac eiddo sy'n cael ei danddefnyddio yng nghanol y dref. Drwy annog canol tref defnydd cymysg gan gynnwys man manwerthu hyblyg, a llety preswyl ar y llawr uchaf, mae'r Cyngor yn helpu i hyrwyddo amgylchedd o ansawdd da sy'n ddeniadol ac yn gwahodd cymysgedd o bobl. Daethpwyd â sawl eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, ac mae cyfanswm o dros £18 miliwn yn cael ei fuddsoddi yng nghanol y dref trwy adfywio eiddo.

## Llety

Ardal fewnol o tua 143 metr sgwâr (1,539 troedfedd sgwâr) gan gynnwys ardal werthu, cownter adwerthu, dwy swyddfa, a chegin/ystafell staff.

## Gwasanaethau

Mae gan y safle ei gyflenwad trydan, nwy a dŵr ei hun. Bydd y tenant a gymer y lle yn gyfrifol am drosglwyddo'r cyfrifon cyfleustodau i'w enw ef/hi ac am dalu'r biliau.

Ni roddwyd prawf ar ddim un o'r gwasanaethau a dylech wneud eich ymholiadau eich hunan ynghylch hyn

## Tystysgrif Perfformiad Ynni

Sgôr perfformiad ynni: C

## Ystyried y Cynigion

Rydym yn annog ceisiadau gan ystod eang o fusnesau sydd eisoes yn bodoli a rhai nad ydynt eto wedi cael eu sefydlu.

Os bydd cynigion tebyg neu gystadleuol yn dod i law, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu'r rheiny a fydd yn fuddiol i Lanelli o ran y cyd-destun strategol ehangach.

## Ardrethi Busnes

Gwerth Ardrethol: £7,600. Nid dyma'r swm rydych chi'n ei dalu. Efallai y bydd rhyddhad ardrethi ar gael i fusnesau bach.

## Telerau'r Brydles

Rhent: I roi amcan ichi, gwahoddir ceisiadau o oddeutu £10,000 y flwyddyn heb gyfrif taliadau eraill (£2,500 y chwarter).

Tymor: 5 mlynedd ond gellid ystyried prydles hwy.

Defnydd: A1 – Siopau/ A2 - Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. Gellid ystyried defnydd gwahanol o'r eiddo a chynghorir darpar denantiaid i holi'r awdurdod cynllunio lleol i gael gwybod a yw'r defnydd a fwriedir ganddynt yn addas.

Atgyweiriadau/Yswiriant: Bydd y tenant newydd yn gyfrifol am atgyweirio, cynnal a chadw ac addurno'r tu mewn, a hefyd am yswirio'r cynnwys a'r gwydr plât.

Bydd yn ofynnol i'r tenant gyfrannu'n rhesymol tuag at y gost i'r Cyngor o gynnal a chadw'r adeilad a'i yswirio.

Bydd geirdaon masnachu a bancio yn ofynnol, ac mae'n bosibl y bydd gwarantwr yn ofynnol gan y Cyngor.

## Costau Cyfreithiol

Bydd pob parti'n gyfrifol am ei gostau cyfreithiol ei hun yn sgil y trafodion hyn.

## I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP
**Malcolm Roberts MRICS, Syrfëwr Rheoli Asedau**
Rhif Ffôn: 01267 246255
E-bost: mhroberts@sirgar.gov.uk

NEU Swyddfa'r Rheolwr, Marchnad Llanelli 01554 773984

You will need to operate bilingually according to the Council's policies including interior and exterior bilingual signs in the property. There is an advice and assistance service as well as free translation and proof-reading available. For information, go to www.carmarthenshire.gov.wales/home/business and click on 'Welsh Language in business'

For information and help to work biligually, go to www.carmarthenshire.gov.wales/home/business and click on 'Welsh Language in business'

These particulars are intended to give a fair description of the property, but are set out for guidance only. Their accuracy cannot be guaranteed and you should satisfy yourself by inspection or otherwise as to their correctness. Carmarthenshire County Council is obliged to consider all offers received in respect of this property up until the exchange of contracts. It is not obliged to accept the highest or any offer.

Bwriedir i'r manylion hyn roi disgrifiad teg o'r eiddo, ond canllaw ydynt yn unig. Ni ellir gwarantu eu cywirdeb a dylech chi fodloni eich hun eu bod

Nodiadau